***Cwm Taf Morgannwg***

***Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol (GCCTRh)***

# Cylch Gorchwyl 2023 - 24

Mae'r Grant Cymorth Tai (GCT) yn rhaglen grant ymyriad cynnar sydd yn cefnogi gweithgaredd sydd yn atal unigolion rhag ddyfod yn ddigartref ac sydd yn sefydlogi eu sefyllfa tai neu sydd yn cynorthwyo unigolion allai ddyfod yn ddigartref i ganfod a chadw eu llety. Mae'r gwasanaethau a ariannir gan y GCT yn gwella, cydweithio ac yn cynorthwyo'r gwasanaeth statudol er mwyn sicrhau fod y cynnig y mae yn ei ddarparu yn cynorthwyo unigolion i ganfod y tai cywir a'r gefnogaeth gywir er mwyn llwyddo.

Prif fwriad y Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol (GCCTRh) yw darparu strwythur sydd yn caniatáu awdurdodau lleol i gydweithio a gwella darpariaeth gwasanaethau a ariannir gan y GCT. Awdurdodau unigol sydd yn gyfrifol am ddarparu'r grant yn eu hardaloedd ond mae'r GCCTRh yn cynnig cyfle i gyflawni amcanion strategol ar y cyd, ymgysylltu â swyddogaethau cyhoeddus eraill a dysgu wrth ei gilydd.

**Prif Gyfrifoldebau**

Mae'r GCCTRh yn perthyn i'r Awdurdodau Lleol ac mae'n atebol iddynt hwy, ar y cyd. Dylai gweithio rhanbarthol gynnig fforwm i Awdurdodau Lleol alli ddarparu'r pethau all gael eu gwneud orau, yn rhanbarthol. Gallant gael eu categoreiddio fel a ganlyn:

1. Dynodi'r angen am wasanaethau cymorth tai arbenigol[1] (rhanbarthol neu leol) nad sydd â mas critigol o alw yn lleol;

2. Dynodi'r angen am wasanaethau rhanbarthol lle y mae arbedion maint yn cyfiawnhau ymateb rhanbarthol;

3. Cydweithrediad i ddarparu gwelliannau gwasanaeth fel dulliau gwaith cyffredin i asesiadau angen a gwasanaethau croesffiniol; a

4. Darparu fforwm ar gyfer trafodaethau gwasanaethau cyhoeddus ynghylch aliniad y gwasanaeth a chamau gweithredu eraill er mwyn gwella deilliannau unigolion.

**Gosod y Datganiad Rhanbarthol**

Bydd y GCCTRh yn cyflwyno datganiad rhanbarthol, blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Ebrill pob blwyddyn yn nodi'r gwaith cydweithredol a gyflawnwyd a'r prif gyfleoedd a'r heriau a fydd yn flaenoriaethau ar gyfer y grŵp yn ystod y flwyddyn ddilynol.

**Strwythur**

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn darparu strwythur ar gyfer cydweithio rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai. Gall gwasanaethau gael eu comisiynu ar y cyd a sicrhau eu bod

[1] Yn y cyd-destun hwn, mae gwasanaethau arbenigol yn golygu unrhyw wasanaeth ar gyfer grŵp gwasanaeth defnyddiwr sydd wedi'i ddiffinio'n gyfyng.

wedi cael eu cynllunio i ganolbwyntio ar wneud y gorau o fwriadau cymorth Tai, Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Nid yw'r Grŵp a chyllidebau GCT yn atebol i BPRh. Disgwylir i'r GCCTRh archwilio cyfleoedd i ffurfio gwariant y GCT er mwyn cefnogi darpariaeth deilliannau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ogystal â hwyluso trafodaethau i wella deilliannau tai, er enghraifft, lleihau cysgu yn yr awyr agored drwy wella mynediad i wasanaethau Iechyd Meddwl.

Bydd y fforwm yn sicrhau fod Cynrychiolwyr Tai y BPRh (sydd yn aelodau allweddol o'r GCCTRh) yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o heriau Cymorth Tai a'r cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd y gallant eu lleisio yn y BPRh. Gall Cynrychiolwyr Tai ddod â gogwyddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r GCCTRh.

**Cyfarfodydd**

Mae'r GCCTRh yn cyfarfod yn chwarterol ar Microsoft Teams. Gellir cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb pan fydd angen. Gall y GCCTRh sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen pan fydd angen.

**Presenoldeb**

Disgwylir i gynrychiolwyr fynychu o leiaf 75% o'r cyfarfodydd. Os na fyddant yn gwneud hynny, gofynnir i'r asiantaeth a'u dynododd i ddarparu cynrychiolwyr eraill.

**Gwasanaethu ac Adnoddau**

Bydd y GCCTRh yn cael ei gefnogi a'i weinyddu gan y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol (CDRh.) Bydd swyddogaethau beunyddiol y CDRh o ran gweithrediad rhaglen waith GCCTRh yn cael ei arwain gan Gadeirydd/Cadeiryddion GCCTRh.

**Agenda**

Dylai'r agenda sylfaenol ar gyfer cyfarfodydd gynnwys:

- Diweddariadau BPRh gan Gynrychiolwyr Tai
- Problemau sydd yn codi/diweddariadau gan Arweinwyr GCT
- Diweddariadau CDRh
- Diweddariadau gan asiantaethau partner: Iechyd Meddwl, Cam-drin Sylweddau, VAWDASV, Gwasanaeth Prawf, OPCC, darparwyr a landlordiaid ac ati
- Datblygiad yn erbyn Cynllun Gwaith Cwm Taf Morgannwg 2023-24

**Ymddygiad GCCTRh**

Bydd disgwyl i aelodau'r GCCTRh weithio yn unol ag egwyddorion Nolan - https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life/the-7-principles-of-public-life--2

Mae'r GCCTRh yn grŵp cydweithiol ac ni ddylai nag unrhyw un o'i aelodau:

- Dynnu gwariant h.y. treuliau teithio;
- Bod yn rhan o gytundebau neu gontractau;
- Gwneud penderfyniadau neu weithredu ar rhan Gweinidog neu Lywodraeth Cymru neu unrhyw gorff arall; neu
- Wneud unrhyw ddatganiad neu ymgysylltu â'r wasg neu'r cyfryngau heb ganiatâd ysgrifenedig gan swyddog dynodedig o Lywodraeth Cymru.

Mae aelodau'r grŵp yn cytuno i:

- Gyfrannu amser, arbenigedd a brwdfrydedd er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol GCCTRh.

- Mynychu o leiaf 75% o gyfarfodydd GCCTRh.
- Cyfrannu mewn modd agored a gonest.
- Adnabod, parchu ac ystyried cyfraniadau pob aelod.
- Sicrhau egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd yn sail i waith y Grŵp.
- Hybu'n gadarnhaol waith y GCCTRh a chodi proffil y GCT.
- Hwyluso cyfleoedd ar gyfer trafodaeth/dadl yn y sefydliad/rhwydwaith a sicrhau cyfathrebiad dwy ffordd, effeithiol.
- Dylanwadu ar alinio adnoddau eraill i waith y GCT lle y mae hynny'n berthnasol.
- Parchu cyfrinachedd.
- Gwneud argymhellion sydd yn seiliedig ar fuddiannau gorau y GCT.
- Cydymffurfio â'r 'Polisi Gwrthdaro Buddiannau.'

**Cyfrifoldebau Cyd-gadeiryddion**
Bydd gan gadeiryddion y GCCTRh swyddogaethau a chyfrifoldebau. Dylai'r Cadeiryddion gofio bob amser eu bod yn ymddwyn ar ran y GCCTRh a'r GCT ac nid mewn modd ynysig.

Swyddogaethau hanfodol y Cadeirydd yw:
- Datblygu perthynas gref a chadarnhaol rhwng y GCCTRh a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ogystal â'r BGC.
- Sefydlu perthynas gadarnhaol a darparu cymorth i'r CDRh.
- Darparu arweiniad i'r GCCTRh.
- Mewn partneriaeth â'r GCCTRh a'r CDRh, awgrymu blaenoriaethau rhanbarthol.
- Sicrhau cod ymddygiad effeithiol busnes y GCCTRh.
- Sicrhau fod y GCCTRh yn gweithredu, yn unol â Chanllawiau GCT.
- Sicrhau fod pob un aelod o'r GCCTRh yn cael cyfle i fynegi safbwyntiau cyn gweithredu argymhelliad pwysig.
- Sicrhau ymdriniaeth gywir o wrthdaro buddiannau y GCCTRh.

**Gwrthdaro Buddiannau**
Bydd y Cadeirydd yn sefydlu, ar ddechrau pob cyfarfod os oes gwrthdaro buddiannau a sut y dylid ymdrin ag ef. O ran eglurder, mae gan bob aelod o'r GCCTRh, gan gynnwys y cadeirydd a'r rhanddeiliaid, h.y. landlordiaid, ymwelwyr a chyflwynwyr gyfrifoldeb i nodi unrhyw wrthdaro buddiant.

Bydd y canllawiau gwrthdaro buddiannau yn cael eu hadolygu fel rhan o adolygiad blynyddol CG y GCCTRh a'r trefniant gweithio rhanbarthol.

**Rheoli Gwrthdaro**
Pan fydd anghytundeb rhwng GCCTRh ac un neu'r holl awdurdodau lleol, bydd y broses ganlynol yn cael ei mabwysiadu:
1. Bydd y Cadeirydd yn ceisio hwyluso ateb.
2. Bydd y Cadeirydd yn gofyn am gymorth gan y CDRh a Swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn cwrdd yn anffurfiol â'r awdurdod/awdurdodau lleol a phenderfynu ar ffordd ymlaen.

**Aelodaeth**
Disgwylir y bydd cynrychiolaeth aelodau yn hyblyg er mwyn caniatáu trafodaethau ac arbenigedd. Disgwylir y bydd aelodau yn enwebu cynrychiolwyr os na fyddant yn gallu bod yn bresennol yn ogystal â chyfathrebu â'u hetholaethau.

**Rhestr Aelodaeth GCCTRh CTM** **Mehefin 2023**

| Aelodaeth GCCTRh | Sefydliad /Gwasanaeth | ALl | Cynrychiolwyr |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol – Arweinwyr Strategol GCT a chynrychiolwyr dynodedig | Tai a Digartrefedd | M | Suzanne Stephens<br>Hannah Mills |
| | Tai a Digartrefedd | R | Cheryl Emery<br>Susan Preece<br>Rachel O Gronow |
| | Tai a Digartrefedd | B | Lynne Berry<br>Ryan Jones<br>Jessica Ware<br>Zoe Leonard (cyfnod mamolaeth) |
| | Aelod o Gabinet CBSMT | M | Cyng Geraint Thomas / Cyng Michelle Symonds |
| | Aelod o Gabinet CBSP | B | Cyng Rhys Goode |
| | Aelod o Gabinet CBSRhCT | R | Cyng Bob Harris |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol | M | Lisa Curtis Jones<br>Kristie Williams (dirprwy) |
| Partneriaid Rhanbarthol | Gwasanaeth Prawf | | Emma Richards<br>Kelly Bosley |
| | Cyfiawnder yr Ifanc | | Christa Bonham-Griffiths |
| | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | | Angharad Metcalf |
| | Camdrin Sylweddau | | Ceri Ford |
| | Bwrdd Partneriaeth Rhabarthol VAWDASV | | Deborah Evans |
| | Grant Plant a Chymunedau | | Melinda Powell |
| | Bwrdd Iechyd y Cyhoedd – CTM | | Philip Daniels |
| | Cynrychiolydd Iechyd Meddwl – BIP CTM - CAMHS | | Chrystelle Walters |
| Darparwyr Cymorth y Trydydd Sector a Landlordiaid | Cynrychiolydd Darparwyr Cymorth<br><br>Cynrychiolwyr Landlordiaid Tai Cymdeithasol | | Lorraine Griffiths (POBL)<br>Mariam Elmirghani (Llamau)<br><br>Sarah O'Keefe (WWHA) |
| | Sector Rhentu Preifat | | I'w gadarnhau |
| | Cydlynnydd Datblygiad Rhabarthol | | Kelly Francis |
| Eraill | Llais Deefnyddiwr y Gwasanaeth | | I'w gadarnhau |
| | Cynrychiolwyr Tai BPRh | | Rachel Honey Jones<br>Emma Howells (dirprwy)<br>Gary Hortop<br>Jennifer Elis (dirprwy) |